


# Gyrfaoedd mewn technoleg ddeintyddol



Mae technegwyr neu dechnolegwyr deintyddol fel y'u gelwir hefyd yn gweithio mewn labordai deintyddol ac yn creu offer deintyddol wedi'u crefftio â llaw fel coronau sy'n unigryw i geg a dannedd cleifion unigol.

## Beth mae technegwyr deintyddol yn ei wneud?

Mae technegwyr yn gweithio ar gyfarwyddyd y deintydd ac yn aml yn defnyddio mowldiau a sganiau o'r dannedd a gymerir gan y deintydd i greu'r offer angenrheidiol, sef, teclynnau ortho-ddeintyddol. Mae'r offer hwn yn cwmpasu:

- dannedd gosod
- offer orthodonteg
- coronau
- phontydd
- offer llawfeddygol arbenigol
- mewnbaniadau
- prosthesis ar gyfer cleifion sy'n cael adluniad wyneb yn dilyn canser y pen a'r gwddf.

## Ble mae technegwyr deintyddol yn gweithio?

- mewn addysgu arbenigol neu ysbytai lleol yn y GIG
- o fewn y sector masnachol naill ai mewn labordai deintyddol preifat neu drwy fod yn hunangyflogedig
- mewn addysg yn addysgu'r genhedlaeth nesaf o dechnegwyr yn y brifysgol.

## Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn dechnegydd deintyddol effeithiol?

- bydd angen i chi fod yn gydlynol, meddu ar ddehurwydd llaw a sgiliau ymarferol da er mwyn cynhyrchu gwaith cywir
- bod yn greadigol gyda diddordeb mewn dylunio a chynhyrchu
- rhoi sylw arbennig i fanylion
- y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau a dehongli gwybodaeth a data technegol
- gallu canolbwyntio am gyfnodau hir o amser
- sgiliau TG da
- gallu gweithio ar eich pen eich hun ac fel rhan o dîm.

## Sut mae dod yn dechnegydd deintyddol clinigol?

I ddod yn dechnegydd deintyddol cofrestredig gyda'r cyngor deintyddol cyffredinol (GDC) mae cyfle i wneud y BSc (Anrh) mewn technoleg ddeintyddol sy'n gwrs gradd tair blynedd a gynigir ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Fel arall, os ydych yn gweithio mewn labordy deintyddol, efallai y bydd opsiwn i wneud cwrs gradd ran-amser neu ddiploma i ddod yn dechnegydd deintyddol cymwys.

Eisiau darganfod mwy?

Tregyrfa: <https://careersville.heiw.wales/cy>

Gyrfaoedd GIG Cymru: <http://www.gyrfaoeddgigcymru.com/>